Hyfforddi Stiwardiaid

Pecyn hyfforddi parod i oruchwylwyr drysau ar gyfer prosiectau mewn cymunedau a grwpiau gwirfoddol

Cynnwys:

Pennod 1 Datganiad dibenion –nodau ac amcanion y Fenter

Pennod 2 Pethau i'w hystyried cyn rhedeg y Fenter

Pennod 3 Rhedeg y rhaglen Hyfforddi Stiwardiaid

Atodiad 1 Sylabws y Cwrs Hyfforddi

Atodiad 2 Tystysgrif ar gyfer cyfranogion llwyddiannus

Atodiad 3 Set Sleidiau PowerPoint – Sesiwn 1

Atodiad 4 Set Sleidiau Powerpoint – Sesiwn 2

Atodiad 5 Set Sleidiau Powerpoint – Sesiwn 3

Atodiad 6 Set Sleidiau Powerpoint – Sesiwn 4

Atodiad 7 Holiadur Gwerthuso i'r rhai sy'n cymryd rhan

Pennod 1

Hyfforddi Stiwardiaid – Pecyn hyfforddi ar gyfer Goruchwylwyr Drws gwirfoddol.

Cyflwyniad – nodau ac amcanion y Fenter

Her Iechyd Cymru

1. Detholwyd themâu allweddol Her Iechyd Cymru oherwydd yr ystyrir mai dyma'r materion sy'n rhan arwyddocaol o'r salwch a allai gael ei osgoi. Mae gostwng nifer y damweiniau ac anafiadau ac atal niwed oherwydd alcohol a chamddefnyddio sylweddau eraill yn themâu allweddol Her Iechyd Cymru. Nod yr ymyrraeth hon yw cynorthwyo Goruchwylwyr Drws gwirfoddol. Mae'r rhain yn unigolion sy'n rhoi cefnogaeth achlysurol i grwpiau cymunedol a phrosiectau gwirfoddol, ond sydd heb ymgymryd â chwrs hyfforddi cofrestredig a gymeradwyir gan Awdurdod y Diwydiant Diogelwch. Mae'n codi ymwybyddiaeth o ran
    - Cynllunio Ymlaen Llaw ar Gyfer Digwyddiadau
    - Iechyd a Diogelwch
    - Cynllunio at Argyfwng
    - Gwacáu Safle
    - Darparu Cyfleusterau Iechydol
    - Parcio Ceir
    - Rheoli Torfeydd

2. Mewn eiddo trwyddedig, goruchwylwyr drws sy'n ymgymryd â hyrwyddo diogelwch defnyddwyr yr eiddo trwy weithredu polisi drws, gan wrthod mynediad i'r rheiny sydd dan ddylanwad alcohol a sylweddau eraill, cadw trefn yn yr adeiladau a cheisio atal ymddygiad gwrthgymdeithasol ng nghyffiniau uniongyrchol yr eiddo. Mae angen i'r goruchwylwyr hyn gael hyfforddiant, trwy ymgymryd â chwrs goruchwylwyr drws cymeradwyedig a achredir gan ADD (Awdurdod y Diwydiant Diogelwch). Yn achos stiwardiaid gwirfoddol, a ddefnyddir gan grwpiau cymunedol neu wirfoddol, er nad ydyn nhw'n rheoli mynediad i'r safleoedd, nhw yw llygaid a chlustiau'r digwyddiadau, sy'n sicrhau gofal cwsmeriaid trwy gydol y digwyddiad, gan gyfeirio a chynorthwyo gyda rhediad esmwyth y digwyddiad. Gan nad yw'r stiwardiaid yn rheoli mynediad i'r lle/adeilad, nid oes angen iddynt gael trwydded gan ADD a hefyd oherwydd eu bod yn wirfoddolwyr. Mae'r fenter hon yn cynnig pecyn parod ar gyfer y fath ddryswyr gwirfoddol gan godi lefel eu hymwybyddiaeth o broblemau sy'n gysylltiedig â digwyddiadau y cynigir adloniant rheoledig ac alcohol ynddyn nhw a'u hyfforddi i ddelio â digwyddiadau cysylltiedig.

2. Mae costau delio â digwyddiadau wedi'u sbadurno gan alcohol i'r heddlu ac i'r GIG yn sylweddol. Mae amcangyfrifon gan yr heddlu am ddelio â throseddau treisgar yn amrywio o £1,440 am ymosodiad cyffredin i £21,442 am glwyfo difrifol. Amcangyfrif heddlu am gost o ddelio â digwyddiad o ymosod gyda gwydr yw £150,000[1].

Mae'r tabl isod yn dangos y gost[1] i'r heddlu o ddelio â digwyddiadau unigol, sy'n codi'n nodweddiadol pan fydd naill ai'r tramgwyddwr neu'r dioddefydd neu'r ddau dan ddylanwad alcohol (ffigurau 2003-4)

Trosedd	Cost
Trais yn erbyn person (cyfartaledd)	£10,100
Clwyfo Difrifol	£21,442
Clwyfo	£ 8,852
Eraill	£ 8,056
Ymosodiad Cyffredin	£ 1,440
Lladrad (oddi ar berson)	£ 634
Difrod Troseddol	£ 866

4. Amcangyfrifir y gost i'r GIG o ddelio â digwyddiadau sy'n gysylltiedig ag alcohol ac anafiadau yn £1.7 biliwn y flwyddyn[1]. Yng Nghymru mae'r amcangyfrif hwn yn £750 miliwn y flwyddyn[2]. Trinnir 1.2 filiwn o ddigwyddiadau trais sy'n gysylltiedig ag alcohol mewn adrannau Damweiniau ac Achosion Brys yng Nghymru a Lloegr bob blwyddyn, ac mae 40% o dderbyniadau i adrannau Damweiniau ac Achosion Brys yn gysylltiedig ag alcohol, gan godi i 70% rhwng oriau canol nos a 5 am. Amcangyfrifir mai'r gost i'r gwasanaethau brys a'r GIG o ddelio â throsedd ac anhrefn sy'n gysylltiedig ag ymddygiad sy'n ymwneud ag alcohol oedd £7.3 biliwn yn 2003[3].

5. Mae hyfforddi stiwardiaid drws gwirfoddol i atal yfed gormod o alcohol a hefyd i fod yn effro i ddigwyddiadau a allai godi oherwydd yfed gormod o alcohol a delio â nhw yn gallu helpu i ostwng digwyddiadau trosedd ac anafiad. Mewn rhai ffyrdd gallwch gymharu'r stiward â Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (SCCH) y digwyddiadau.

6. Yn ogystal â mynd i'r afael â themâu Her Iechyd Cymru - gostwng nifer y damweiniau ac anafiadau a chamddefnyddio sylweddau ac alcohol, mae'r ymyrraeth hon hefyd yn ymdrin â rhai o'r materion sy'n codi o dan Strategaethau Trosedd ac Anhrefn a Chymdogaeth Lân y bydd awdurdodau lleol yn gyrff sy'n bartneriaid ynddyn nhw. Mae gweithgarwch Stiwardiaid Drws yn mynd y tu hwnt i faterion sy'n gysylltiedig ag alcohol a thrais yn erbyn unigolion sy'n gysylltiedig ag alcohol. Mae ganddyn nhw rôl hefyd mewn cadw trefn yn y stryd o gwmpas y safle, atal taflu sbwriel ar y stryd, gostwng y risg o ddamweiniau ac anafiadau y tu allan i'r eiddo trwy atal pobl rhag mynd â gwydrau a photeli allan, ac mewn diogelwch priffyrdd, trwy drefnu cerbydau a rheoli cerddwyr. Hefyd mae ganddyn nhw swyddogaeth Iechyd a Diogelwch gyfyngedig ond pwysig, yn sicrhau e.e. bod drysau tân yn aros ar glo ac yn glir ac nad yw noddwyr safle'n ymgymryd ag ymarferion a allai roi eu hunan, noddwyr eraill na staff mewn perygl. Er nad yw'n gysylltiedig yn union â Her Iechyd Cymru, mae'r gweithgarwch hwn yn cyfrannu at Ddiogelwch ehangach y Gymuned, agendâu Trosedd ac Anhrefn ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol gan ledaenu gwerth yr ymyrraeth i'r partneriaid sy'n ei chynnig.

7. Mae gostwng camddefnyddio alcohol a sylweddau eraill a gostwng damweiniau ac anafiadau'n themâu allweddol Her Iechyd Cymru. Mae'r fenter hon yn ymdrin â'r

ddwy thema trwy roi i stiwardiaid drws y sgiliau, yr ymwybyddiaeth a'r wybodaeth i ymdrin â nhw trwy ddefnyddio mesurau ataliol rhagweithiol. Trwy wneud hynny, mae'n mynd i'r afael â themâu allweddol Her Iechyd Cymru, yn ogystal ag ymdrin â materion diogelwch y gymuned ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Pennawd 2

Hyfforddi Stiwardiaid – Pecyn hyfforddi ar gyfer Goruchwylwyr Drysau gwirfoddol

Rhedeg Menter

1. Ystyriaethau cynnar

Mae'n rhaid mynd i'r afael ag ystyriaethau cynnar ar gyfer y prosiect hwn, gan gynnwys;

- Beth yw'r grŵp targed?
- Fydd y fenter yn cael y canlyniad a ddymunir?
- Sut gellir cyrraedd y grŵp targed?
- Pwy yw'r partneriaid allweddol yn y fenter?
- Sut bydd y fenter yn cael ei gwerthuso?
- A fydd y fenter yn rhoi gwerth am yr arian?

2. Grŵp Targed

Y grŵp targed ar gyfer yr ymyriad hwn yw'r unigolion hynny sy'n gweithredu'n wirfoddol fel stiwardiaid drysau ar gyfer grwpiau cymuned a phrosiectau gwirfoddol sy'n cynnal digwyddiadau y mae angen arnynt oruchwyliaeth, ond sydd y tu allan i reolaeth drwyddedu Awdurdod y Diwydiant Diogelwch. Yn y prosiect arbrofol, daeth y stiwardiaid gwirfoddol o gwmni o'r enw *Celtic Blue Rock Community Arts Festival Committee*. Mae'r pwyllgor wedi bodoli ers peth amser ac wedi bod yn cynnal digwyddiadau yn ei fro ers y 5 mlynedd diwethaf.

3. Cyrraedd y canlyniad a ddymunir

Diben y fenter yw gostwng nifer yr unigolion sy'n yfed alcohol yn ormodol, gostwng nifer y damweiniau ac anafiadau sy'n gysylltiedig ag alcohol a gostwng ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n codi o ddigwyddiadau untro a gynhelir gan grwpiau cymuned a phrosiectau gwirfoddol. Oherwydd y bydd y digwyddiadau'n ddigwyddiadau untro gan amlaf, mae'n annhebyg y bydd niferoedd ar gyfer yr un digwyddiad a gynhaliwyd yn flaenorol a fydd yn union gymaradwy ac y gellid mesur unrhyw ostyngiad yn ei erbyn. Felly, mae'n well ystyried mai'r canlyniad a ddymunir yw na fydd unrhyw ddamweiniau, anafiadau nac ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig ag alcohol. Cyflawnir hyn trwy hyfforddi Stiwardiaid Drysau, sydd yn y sefyllfa orau i weithredu i atal y fath bethau a ddisgrifir rhag digwydd.

Gwahoddir cyfranogion yn y fenter i gymryd rhan mewn cyfres 4 rhan o ddarlithoedd hyfforddi a gynhelir mewn mannau lleol sy'n gyfleus i aelodau'r grŵp. Mae'r darlithoedd yn cynnwys

(1) Rolau a Chyfrifoldebau Stiwardiaid
(2) Cyfarwyddiadau a Chynllunio Cyn y Digwyddiad
(3) Cynllunio Brys

(4) Rheoli'r Drafnidiaeth a'r Torfeydd

Derbynnir y bydd rheoli'r digwyddiadau y tu hwnt i allu neu fedr stiwardiaid drysau gwirfoddol mewn rhai achosion; fodd bynnag weithiau gall y ffaith eu bod yno gael effaith leddfol a gallan nhw ymyrryd yn gyflym os bydd digwyddiad yn codi i'w atal rhag lledaenu. Hefyd gallant gymryd camau ataliol i sicrhau y diogelir y rheiny sy'n yfed alcohol yn y fath fodd ag i fod yn fwy agored i ddamweiniau, e.e. trwy eu cyfeirio oddi ar ffyrdd ac at balmantau ayyb.

4. Cyrraedd y Grŵp Targed

Adnabyddir y grwpiau targed trwy weithio mewn partneriaeth â'r sectorau gwirfoddol yn yr awdurdod yn ogystal â swyddogion y Celfyddydau a fydd yn cysylltu grwpiau bach sy'n ymwneud ag adfywio cymunedol a chelfyddydau cymuned. Yn Sir Benfro PLANED yw'r corff gwirfoddol a ddefnyddir ar gyfer gweithredu a chyd-drefnu'r hyfforddi gwirfoddol. Mae'n debyg y bydd gan yr awdurdod lleol a'i bartneriaid wybodaeth ynglŷn ag adeiladau sy'n debyg o ddefnyddio stiwardiaid drysau gwirfoddol, ar gronfeydd data sy'n bodoli eisoes a gynhelir gan e.e. adrannau trwyddedu, ac y gellir hefyd ddefnyddio'r wybodaeth leol i nodi adeiladau a chyrff sydd efallai â diddordeb mewn mynychu'r cwrs, neu rannau ohono. Gallai'r rhain gynnwys e.e. cymdeithasau amaethyddol lleol a allai fod wedi defnyddio stiwardiaid drysau o sioeau amaethyddol a chlybiau chwaraeon lleol a allai fod yn defnyddio stiwardiaid drysau ar ddiwrnodau gêm.

Ar ôl cael eu henwi, gwahoddir nhw i gymryd rhan mewn cyfres 4 rhan o ddarlithoedd hyfforddi a gynhelir mewn mannau lleol sy'n gyfleus i aelodau'r grŵp. Oherwydd bod cymryd yn y fenter gyfan yn gofyn mynychu 4 uned o hyfforddiant, mae'n bwysig bod y lle'n gyfleus a bod amser y digwyddiad yn sicrhau'r presenoldeb uchaf. Felly gallai fod yn angenrheidiol cynnal yr hyfforddiant gyda'r hwyr ar gyfer y rhai sy'n cynnig stiwardio, ond sydd mewn gwaith yn ystod y diwrnod.

5. Pwy yw'r partneriaid allweddol yn y fenter?

Yn y prosiect arbrofol, y partneriaid oedd yr awdurdod lleol, yr Heddlu a chorff mantell sy'n cynrychioli grwpiau cymuned, Planed.

Dyluniwyd sylabws y cwrs gan nifer o adrannau awdurdod lleol, gan gynnwys Trwyddedu, Iechyd a Diogelwch, Cynllunio Brys a Phriffyrdd, gyda chyfraniad gan yr Heddlu a'r Gwasanaeth Tân
Nodwyd y grŵp targed trwy ddefnyddio gwybodaeth oddi wrth adran Trwyddedu a Chelfyddydau'r Awdurdod Lleol yn ogystal â'r Heddlu a Planed.

6. Sut bydd y fenter yn cael ei gwerthuso?

Mae dwy ran i werthuso'r fenter hon. Mae'r rhan gyntaf yn werthusiad o'r hyn roedd y cyfranogion yn teimlo iddyn nhw ei gyflawni trwy fynychu'r cwrs, neu'r rhannau a

fynychon nhw. Mae hyn yn werthusiad goddrychol, ond mae'n werthfawr oherwydd y gallai amlygu meysydd lle y byddai gwybodaeth bellach o fudd, a gellir ei chynnig i gyfranogion trwy ffyrdd eraill, fel trwy'r post neu e-bost. Yn y ffordd hon gellir ehangu gwerth y fenter i fodloni anghenion adnabyddedig pellach y cyfranogion.

Fel y nodwyd ym mharagraff 3 uchod, nid yw defnyddio rhifau cymharol digwyddiadau untro cyn ac ar ôl y gweithredwyd yr hyfforddi yn ffordd foddhaol o werthuso manteision y fenter, oherwydd ei bod yn annhebyg y bydd y digwyddiadau'n ddigon agos o ran math i fod yn gymaradwy'n union, ac oherwydd y gall llawer o ffactorau eraill ddylanwadu ar ymddygiad, e.e. tymheredd, neu gystadleuaeth leol rhwng clybiau chwaraeon, amser y digwyddiad ayyb. Hefyd mae'n amhosibl gwerthuso effaith diffyg digwyddiadau, oherwydd y bydd y rhan fwyaf o fynychwyr digwyddiadau'n mynychu gan ddisgwyl y bydd y digwyddiad yn heddychlon ac na chânt eu bwgwth na'u brawychu gan ymddygiad mynychwyr eraill.

O ganlyniad, awgrymir y bydd y gwerthusiad hwn hefyd yn oddrychol i raddau helaeth ac y caiff ei seilio o gwmpas barn y rheiny a effeithiwyd gan y digwyddiad, fel yr Heddlu, y bydd ganddynt farn ynglŷn â pha mor dda y cynhaliwyd y digwyddiad ac i ba raddau yr oedd rhaid iddyn nhw ryngwynebu ag e, a'r rheiny a fynychodd y digwyddiad, y bydd eu barn ynghylch pa mor ddiogel y teimlon nhw, a deimlon nhw fod y diogelwch yn rhy amlwg ai peidio ayyb. yn berthnasol hefyd.

7. A fydd y fenter yn cynnig gwerth am yr arian?

Cost y prosiect arbrofol oedd oddeutu £300. Hwn oedd cost llogi'r lleoedd a lluniaeth y digwyddiadau hyfforddi ac argraffu'r deunydd a'r tystysgrifau. Nid yw'n cynnwys cost amser swyddog i ddylunio'r sylabws na chymryd rhan yn y sesiynau hyfforddi.

Awgrymir mai oddeutu £300 fydd costau cynnal y digwyddiad ar gyfer defnyddwyr eraill y fenter, ac eithrio amser addysgu oherwydd nad oes angen dylunio'r sylabws. Gellir creu costau eraill trwy gael digwyddiad cyflwyno i'r cyfranogion llwyddiannus neu drwy roi hysbysebion am yr hyfforddi mewn papurau newydd lleol, ond hyd yn oed â chaniatáu am y fath amrywiadau, mae'r gost yn gymharol fach. O ystyried y costau i'r heddlu a'r GIG o ddelio â damweiniau ac anafiadau sy'n codi o ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig ag alcohol, fel y trafodwyd ym Mhennod 1, mae'r buddsoddiad sydd ei angen i redeg y cwrs yn fach, ac felly cesglir bod yr ymyrraeth hon yn cynnig gwerth am yr arian.

Pennod 3

Hyfforddi Stiwardiaid – Cynnal y pecyn hyfforddi ar gyfer Goruchwylwyr Drws Gwirfoddol

Yr ymgyrch

Cynnal cwrs hyfforddi parod mewn 4 rhan ar gyfer stiwardiaid drws gwirfoddol i godi eu hymwybyddiaeth o'u rolau a'u cyfrifoldebau, ac o faterion yn ymwneud â chynnal digwyddiadau, fel cynllunio ymlaen llaw, iechyd a diogelwch, diogelwch ffordd, cynllunio at argyfwng, rheoli torfeydd a'r angen i reoli ymddygiad y rheiny sydd wedi yfed alcohol, eu hatal rhag cael gormodedd ac atal eu hymddygiad rhag peri risg iddyn nhw eu hunain ac i eraill.

Camau cychwynnol

Cyn ymgymryd â'r fenter hon mae'n bwysig sefydlu bod digon o ddiddordeb i gynnal y cwrs dros y 4 sesiwn y mae'n ei gymryd. Gellir gwneud hyn drwy gysylltu â'r holl fudiadau, clybiau a grwpiau sy'n gwneud defnydd ar stiwardiaid drws gwirfoddol i ganfod lefelau'r diddordeb, gan nodi'r rhain drwy gronfeydd data Trwyddedu a'r Celfyddydau yr awdurdod lleol a hefyd ar ôl cael cyngor oddi wrth grwpiau cymunedol lleol am y rheiny sy'n debygol o gymryd rhan. Mae'n bosibl y bydd gan yr Heddlu hefyd wybodaeth am gyfranogwyr tebygol, a dylid ei chynnwys.

Ar ôl nodi'r cyfranogwyr tebygol, mae angen canfod lleoliad a fydd yn gyfleus i gynnal yr hyfforddiant, ac i sicrhau y bydd ganddo'r cyfleusterau hynny y bydd eu hangen. Cyflwynir yr hyfforddiant drwy gyfrwng sioe sleidiau PowerPoint; felly bydd angen cyfleusterau ar y lleoliad i redeg taflunydd data a sgrîn, neu wal y gellir dangos y darluniau yn eu herbyn. Mae'n bosibl y bydd y cyfranogwyr hefyd yn dymuno gwneud nodiadau, felly efallai bydd byrddau o fantais. Mae pob sesiwn hyfforddi wedi'i hamseru i bara am ddwy awr ac felly mae'n bosibl y bydd gofyn am gyfleusterau yn y lleoliad i gynnig te a choffi.

Fel y nodwyd, mae'r Hyfforddiant wedi'i rannu'n 4 sesiwn, pob un ohonynt yn cael ei gyflwyno gan hyfforddwr/hyfforddwyr gwahanol i adlewyrchu'r gwahanol wybodaeth sy'n cael ei chyflwyno. Yn y prosiect peilot, roedd y cyflwyniad fel a ganlyn:

Uned	Pwnc	Hyfforddwr/Hyfforddwyr
1	Rolau a Chyfrifoldebau	EHP yr ALl – Trwyddedu a Swyddog Trwyddedu'r Heddlu
2	Cynllunio ymlaen llaw a Briffio	EHP yr ALl – Trwyddedu a Swyddog Trwyddedu'r Heddlu
3	Cynllunio at Argyfwng	EHP yr ALl – Trwyddedu a Thrwyddedu'r Heddlu
4	Rheoli Traffig a Thorfeydd	Is-adran Draffig Heddlu Dyfed Powys

Mae pwy a ddylai gyflwyno pob uned yn fater i'w benderfynu'n lleol; fodd bynnag byddai ystyried y maes llafur a chynnwys pob uned yn gallu cyfarwyddo dewis y person/personau priodol.

Mae'r maes llafur ar gyfer yr hyfforddiant yn ymddangos fel Atodiad 1.

Cyflwynir tystysgrif i'r cyfranogwyr llwyddiannus sy'n cwblhau'r cwrs hyfforddi. Mae'r dystysgrif a ddefnyddiwyd yn y prosiect peilot wedi'i dangos fel Atodiad 2; fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd y rheiny sy''n rhedeg y fenter yn dymuno dylunio tystysgrif a fydd yn cynnwys logo yr holl bartneriaid sy'n cymryd rhan a bod blas lleol iddi.

Mae'n bosibl y bydd y rheiny sy'n rhedeg y fenter yn dymuno ystyried codi tâl am yr hyfforddiant, er cydnabod cost ac ymrwymiad cynnal yr hyfforddiant i'r partneriaid, a'r ffaith y bydd y rheiny sy'n cymryd rhan yn cael tystysgrif a fydd o werth iddynt, ac a allai hefyd fod o werth i'r mudiadau sy'n defnyddio eu gwasanaethau wrth ddelio ag yswiriant ar gyfer eu digwyddiadau. Bydd hwn yn fater i'w benderfynu'n lleol.

Rhedeg y Fenter

Cynhelir y fenter dros 4 sesiwn ar wahân. Mae set o sleidiau PowerPoint yn gysylltiedig â phob sesiwn, sy'n ymddangos ar wahân fel yr atodiadau a ddangosir isod:

Sesiwn 1 – Rolau a Chyfrifoldebau – Atodiad 3
Sesiwn 2 – Cynllunio ymlaen llaw a Briffio – Atodiad 4
Sesiwn 3 – Cynllunio at Argyfwng – Atodiad 5
Sesiwn 4 – Rheoli Traffig a Thorfeydd – Atodiad 6

Gall y rheiny sy'n cyflwyno'r sesiynau naill ai ddefnyddio'r sleidiau PowerPoint fel y'u cyflwynir yn y pecyn deunyddiau, neu wneud y newidiadau hynny i adlewyrchu amgylchiadau lleol fel y bo'n briodol.

Dilyn i Fyny'r Fenter

Ar ôl cwblhau'r cwrs hyfforddi, mae'n bosibl y bydd y rheiny sy'n ei gynnal yn dymuno'i werthuso. Fel y nodwyd ym Mhennod 2 mae gwerthuso'r prosiect yn anodd, fodd bynnag mae modd sicrhau barn y cyfranogwyr o ran gwerth y cwrs iddynt, a pha wybodaeth arall nad oedd wedi'i chynnwys yn y maes llafur a allai fod o werth iddynt. Awgrymir y gellir cael y wybodaeth hon gan ddefnyddio holiadur i'w rhoi i'r holl gyfranogwyr. Dangosir copi o'r holiadur fel y'i defnyddiwyd yn y prosiect peilot fel Atodiad 7. Lle gwneir ceisiadau am fwy o wybodaeth, gellir darparu hon drwy'r post, drwy e-bost, neu lle ceir nifer o geisiadau am yr un wybodaeth, drwy gynnig digwyddiad pwrpasol unigryw i ddarparu'r wybodaeth honno.

Efallai y bydd trefnwyr y cwrs yn dymuno ystyried digwyddiad cyflwyno, lle rhoddir eu tystysgrifau i'r ymgeiswyr llwyddiannus. Yn aml mae digwyddiadau o'r fath yn bwysig i'r cyfranogwyr sy'n ennill cydnabyddiaeth am eu cyflawniadau, ac maent hefyd o werth i'r mudiad partner a drefnodd yr hyfforddiant, nid yn unig gan ei fod yn codi proffil y cwrs hyfforddi, ond hefyd y bartneriaeth a'r partneriaid. Os caiff sylw yn y wasg leol, gall y cyflwyniad hefyd godi proffil yr hyfforddiant a pheri i ddarpar gyfranogwyr eraill ddod ymlaen.

Mae'n bosibl y bydd partneriaid y cwrs hyfforddi yn dymuno gwerthuso'i effaith drwy ymweld â digwyddiadau sy'n cael eu staffio gan stiwardiaid gwirfoddol a gymerodd ran yn yr hyfforddiant. Gwerthuso unswydd fydd hyn, gan na fydd ganddo unrhyw gymaryddion uniongyrchol y gellir 'marcio' y stiwardiaid sy'n dilyn y cwrs hyfforddi yn eu herbyn, fodd bynnag, mae modd gwneud ychydig o ddadansoddi goddrychol o'r modd y mae'r digwyddiad yn cael ei gynnal, ac ymddygiad y bobl sy'n ei fynychu.

ATODIAD 1

Maes Llafur – Stiwardiaid Gwirfoddol

Pynciau	**Sesiwn 1** Rolau a Chyfrifoldebau Beth yw'r rôl? Partneriaethau Gofal cwsmeriaid Agwedd a sgiliau Ymddygiad Strwythurau sefydliad Y Gyfraith Deddf Trwyddedu 2003 Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974 Gweithdrefnau a Pholisïau Hawliau Cymorth Cyntaf	**Sesiwn 2** Cynllunio ymlaen llaw a briffio Dewis y safle Proffil y digwyddiad Cynlluniau o'r safle Gwasanaeth au Diogelwch rhag Tân Cyfathrebu Briffio Briffio ar ôl y digwyddiad	**Sesiwn 3** Cynllunio at Argyfwng Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch RIDDOR Deddf Trwyddedu Cynllunio at ddigwyddiad mawr Sut i Gynllunio Cynlluniau o'r Safle Cynllunio at argyfwng Partneriaeth	**Sesiwn 4** Rheoli traffig a thorfeydd Beth yw rheoli traffig Cau Ffyrdd Rheoli Torfeydd Polisi Mynediad Partneriaeth Ymarfer ymarferol (Parcio ceir, arwahanu, arwyddion meysydd parcio)
Hyd	2 awr	2 awr	2 awr	2 awr
Hwylusydd	Iechyd yr Amgylchedd a'r Heddlu	Iechyd yr Amgylchedd a'r Heddlu	Cynllunio at Argyfwng, Yr Heddlu, Iechyd yr Amgylchedd a neu'r Frigâd Dân	Heddlu Traffig, Swyddogion Rheoli Traffig
Lleoliad	Ystafell ddosbarth	Ystafell ddosbarth	Ystafell ddosbarth	Ystafell ddosbarth a gofod allanol
Adnoddau	Powerpoint/ Siart Troi /pinnau Taflenni i'w dosbarthu	Powerpoint/ Siart Troi /pinnau Taflenni i'w dosbarthu	Powerpoint/ Siart Troi /pinnau Taflenni i'w dosbarthu	Powerpoint/ Siart Troi /pinnau Taflenni i'w dosbarthu Gwasgodau Fflwroleuol / Rhaff/ Sialc / cerbydau

Atodiad 2

To be designed In-house

Atodiad 3

Set Sleidiau PowerPoint – Sesiwn 1

Atodiad 4

Set Sleidiau Powerpoint – Sesiwn 2

Atodiad 5

Set Sleidiau Powerpoint – Sesiwn 3

Atodiad 6

Set Sleidiau Powerpoint – Sesiwn 4

Atodiad 7

ATODIAD 7

Hyfforddi Stiwardiaid

FFURFLEN WERTHUSO

Enw	Miss / Ms / Mrs / Mr *(rhowch gylch)*		
Cyfeiriad			
Cod post		Rhif ffôn	
E-bost			

Os byddai'n well gennych aros yn ddi-enw, gadewch y manylion uchod yn wag. Fodd bynnag, os oes angen arnoch unrhyw adborth neu wybodaeth bellach, sicrhewch eich bod yn llenwi'r manylion uchod neu cysylltwch â ni ar wahân.

Lleoliad		Dyddiad(au)	

Ticiwch y blychau i ddangos pa sesiynau rydych chi wedi eu mynychu:

Sesiwn un ☐ Sesiwn dau ☐

Sesiwn tri ☐ Sesiwn pedwar ☐

Rhowch gylch am y gair cymwys i ddangos beth yw'ch barn am agweddau canlynol y cwrs:

Siaradwr/wyr gwael digonol da da iawn ardderchog

Lleoliad/ cyfleusterau gwael digonol da da iawn ardderchog

Cynnwys y cwrs	gwael	digonol	da	da iawn	ardderchog
Trefniant y cwrs	gwael	digonol	da	da iawn	ardderchog

A fodlonodd y cwrs eich disgwyliadau? do naddo
Os na wnaeth, rhowch eich sylwadau:

Wnaech chi unrhyw newidiadau i'r cwrs? gwnawn na wnawn
Rhowch eich sylwadau:

Beth oedd eich hoff ran neu rannau o'r cwrs?

A oes unrhyw agwedd ar fod yn stiward neu drefnu digwyddiadau yr hoffech chi naill ai wybod mwy amdano, neu sydd heb ei gynnwys yn y cwrs hwn? Nodwch:

Defnyddiwch y lle isod i helaethu ar unrhyw un (neu fwy) o'ch sylwadau uchod neu i ychwanegu unrhyw sylwadau pellach:

Diolch am gymryd yr amser i lenwi'r gwerthusiad hwn. Bydd eich ymateb yn ein helpu i

Hyn sydd i dystio bod

-

- Wedi mynychu cwrs hyfforddi stiwardiaid

Ar ran y prosiect peilot stiwardiaid

Rhif tystysgrif.45